

Bundle Health Board - Welsh 12 November 2020

10.15am

- 1 Agenda
 Agenda Board 12.11.20 V1.0_Cymraeg.docx
- 2 20.125 Cofnodion Drafft Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 24.9.20 er cywirdeb ac
 adolygu'r Cofnod Cryno o Weithredoedd
 20.125a Minutes Health Board Public 24.9.20 V0.04_Cymraeg.docx
- 3 20.126 Cofnodion Drafft y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 24.9.20 am fanwl-
 gywirdeb
 20.126 Minutes AGM 24.9.20 V0.03 Cymraeg.docx
- 4 20.140 Safon 37 y Gymraeg: Cyfieithu papurau'r Bwrdd - Teresa Owen
 20.140 WL Standard 37 Translating Board Papers _Cymraeg.docx

Agenda'r Bwrdd Iechyd

Dyddiad 12/11/2020
Amser 10:15
Lleoliad Rhithwir
Cadeirydd Mark Polin

MATERION AGORIADOL A LLYWODRAETHU EFFEITHIOL

20.122 Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd - Mark Polin

20.123 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

20.124 Datganiadau o Fuddiant

20.125 Cofnodion Drafft Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 24.9.20 er cywirdeb ac adolygu'r Cofnod Cryno o Weithredoedd

20.126 Cofnodion Drafft y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 24.9.20 am fanwl-gywirdeb

20.127 Y Diweddaraf ar Fesurau Arbennig - Gill Harris

EITEMAU AR GYFER CYDSYNIAD

20.128 Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cyfarwyddiadau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2008. Diweddarau Cofrestr Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) Meddygon i Gymru a Diweddarau Cofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) - Arpan Guha

20.129 Adroddiad Blynnyddol Iechyd a Diogelwch 2019-20 - Sue Green

20.130 Staff Nyrsio - Debra Hickman

I'W BENDERFYNU

20.131 Achos Busnes Llawn Gogledd Sir Ddinbych - Chris Stockport

20.132 Cynlluniau Chwarter 3 a Chwarter 4 - Mark Wilkinson

20.147 Datrysiad Dros Dro Llawfeddygaeth gyda Chymorth Robot (RAS) ar gyfer Gogledd Cymru - Mark Wilkinson

20.148 Achos Busnes Cyfalaf BIPBC Symffoni / System Genedlaethol Adran Achosion Brys Cymru - Chris Stockport

I'W DRAFOD

Adroddiadau Perfformiad - Mark Wilkinson

20.133 Adroddiad Monitro Cynnydd y Cynllun Blynnyddol - Mark Wilkinson

20.134 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad - Mark Wilkinson

20.135 Adroddiad Cyllid M5 - Sue Hill

20.136 Adroddiad Cyllid M6 - Sue Hill

20.137 Adroddiadau Sicrwydd Cadeiryddion y Pwyllgorau a'r Grwpiau Cynghorol

20.138 Integreiddio a Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn Ddiogel - Teresa Owen

20.139 Y Diweddaraf ar Ofal Cychwynnol: Ymateb i'r Pandemig Covid-19 - Chris Stockport

20.140 Safon 37 y Gymraeg: Cyfieithu papurau'r Bwrdd - Teresa Owen

20.141 Dyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r Blaenoriaethau Cydraddoldeb Presennol / Effaith Covid - Sue Green

ER GWYBODAETH

20.142 Y diweddaraf ar Ymchwil a Datblygiad - Arpan Guha

20.143 Crynodeb o Fusnes Heb y Cyhoedd y Bwrdd i gael ei adrodd arno'n gyhoeddus

20.144 Fforwm Cymru Gyfan a Fforymau Eraill

MATERION I GLOI / CLOSING BUSINESS

20.145 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

21 Ionawr 2021

20.146 Heb y Wasg a'r Cyhoedd

Penderfyniad i Wahardd y Wasg a'r Cyhoedd - "Bod cynrychiolwyr o'r wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd i gael eu gwahardd o weddill y cyfarfod hwn yng ngoleuni natur gyfrinachol y materion sydd i'w trafod, y byddai cyhoeddusrwydd arnynt yn niweidiol i fuddiant y cyhoedd yn unol ag Adran 1 (2) Y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960).

V1.0



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Cofnodion Drafft cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar
24.9.20

Cynhaliwyd y cyfarfod dros Webex a'i ffrydio'n fyw

Yn bresennol:

Mark Polin	Cadeirydd
Nicky Callow	Aelod Annibynnol ~ Prifysgol
Cheryl Carlisle	Aelod Annibynnol
John Cunliffe	Aelod Annibynnol
Gareth Evans	Cadeirydd Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd
David Fearnley	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol
Sue Green	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol
Arpan Guha	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol Dros Dro (Darpar)
Gill Harris	Prif Weithredwr Dros Dro
Debra Hickman	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth
Sue Hill	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid
Jackie Hughes	Aelod Annibynnol
Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol
Eifion Jones	Aelod Annibynnol
Lyn Meadows	Aelod Annibynnol
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus / Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro
Dawn Sharp	Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd
Chris Stockport	Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned
Adrian Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd
Mark Wilkinson	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad
Ffrancon Williams	Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (<i>rhan o'r cyfarfod</i>)

Yn bresennol:

Kate Dunn	Pennaeth Materion Corfforaethol - ar gyfer cofnodion
Mark Elias	Radiolegydd Ymgynghorol (rhan o'r cyfarfod)
Ian Howard	Cyfarwyddwr Cynorthwyl - Strategaeth a Dadansoddi Busnes (<i>rhan o'r cyfarfod</i>)
Llinos Roberts	Rheolwr Busnes - Swyddfa'r Cadeirydd

Eitem ar yr Agenda a Draffodwyd	Gweithredug
20.93 Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd	
20.93.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan adrodd ar nifer o faterion:- 1. I gadarnhau bod Gweithred y Cadeirydd wedi'i gymryd i gymeradwyo ailosod y papur llywodraethu yn dilyn cytundeb y Pwyllgor Archwilio ar 28 Gorffennaf 2020	

2. I gadarnhau bod Gweithred y Cadeirydd wedi'i gymryd ynghylch penodi Jo Whitehead i swydd y Prif Weithredwr o fis Ionawr 2021. Sylwer hefyd fy mod wedi bod mewn cysylltiad â hi i baratoi cyn iddi ddechrau. 3. I gadarnhau bod Gweithred y Cadeirydd wedi'i gymryd ynghylch tâl y cyn Brif Weithredwr Dros Dro 4. I gadarnhau Gweithred y Cadeirydd i gymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiad blynyddol ansawdd 5. I gadarnhau Gweithred y Cadeirydd i gymeradwyo setlo hawliad o werth uchel a chyfarwyddyd cwnsler i ddechrau trafod mewn cyfarfod setliad ar y cyd 6. I roi gwybod i'r Bwrdd bod y Gweinidog wedi cytuno ar estyniad i swydd yr aelod bwrdd cyswllt Cyfarwyddwr MHLDS i 6 Ionawr 2021	
20.94 Ymddiheuriadau am Absenoldeb Cafwyd ymddiheuriadau gan Lucy Reid (Is Gadeirydd), Morwena Edwards (Aelod Cyswllt y Bwrdd, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol), Andy Roach (Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu), Gavin MacDonald (a benodwyd yn ddiweddar fel Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro) a Helen Wilkinson	
20.95 Datganiadau Diddordeb 20.95.1 Datganodd Jackie Hughes ddiddordeb yn eitem 20/110 ar yr agenda oherwydd bod ei swydd barhaol yn BIPBC mewn radioleg.	
20.96 Cofnodion Drafft Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 23.7.20 er cywirdeb ac adolygu'r Log Gweithredoedd Cryno 20.96.1 Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir. Rhoddwyd diweddariadau ar y Log Gweithredoedd Cryno.	
20.97 Cofnodion Cyfarfod Ymddiriedolwyr y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 23.1.20 i'w cymeradwyo 20.97.1 Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir. O ran y gweithredoedd yn y cofnodion, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cael y diweddariad canlynol, a'i fod yn fodlon: <i>"Gweithred 20/3.2 Mae Rheolwr Cefnogi Partneriaethau BIPBC yn Nhîm Rheoli Awyr Las yn anfon yr holl wahoddiadau ar gyfer digwyddiadau o bwys ar gyfer yr Urdd Cyfeillion ac elusennau eraill sy'n gweithio gyda BIPBC at Mandy Williams, Cynorthwydd Personol y Cadeirydd. Ers mis Mawrth, ni fu unrhyw ddigwyddiadau o bwys ar gyfer yr Urdd Cyfeillion ac elusennau eraill. Pan fyddant yn ailddechrau, bydd Rheolwr Cefnogi Partneriaethau BIPBC yn sicrhau bod Aelodau'r Bwrdd yn cael gwahoddiad i fynychu. Mae'r Rheolwr Cefnogi Partneriaethau yn dal mewn cyswllt rheolaidd â'r holl elusennau Urdd Cyfeillion ac elusennau eraill sy'n gweithio gyda BIPBC.</i> <i>Gweithred 20/3.4. Ni chafodd y diweddariad misol ei gylchredeg ers mis Chwefror oherwydd y rolau cyfnewidiol yn y tîm cefnogi elusennau a'r newid mewn cyfathrebu oherwydd y Cyfnod Ymateb cychwynnol i Covid-19. Yn hytrach, cafodd diweddariadau eu cynnwys yn y negeseuon Covid-19 dyddiol a anfonwyd at yr holl staff, a rhannwyd trosolwg</i>	

<i>mwyl manwl o weithgarwch Tîm Cefnogi Awyr Las ym mis Mehefin. Bydd adroddiad 6 mis ar Apêl ac Ymateb Covid-19 o'r Gymuned yn cael ei rannu â'r holl gefnogwyr a'r Bwrdd ym mis Hydref (wythnos 12/10/20) a bydd y diweddariad misol yn cael ei rannu eto o fis Hydref."</i>	
20.98 Mesurau Arbennig 20.98.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr Dros Dro y papur oedd yn rhoi datganiad o sefyllfa ar gynnydd y mesurau arbennig hyd yma. Gwnaeth sylw cyffredinol bod y gwaith a wnaed i ymateb i'r pandemig wedi dangos bod lefel dda o aliniad a gallu yn y sefydliad. Canmolodd hefyd y perthnasoedd positif rhwng clinigwyr a'u dyhead i weithio'n fwy cydlynol i amddiffyn cleifion a'r cyhoedd. Tynnodd y Prif Weithredwr Dros Dro sylw at y meysydd cynnydd yn y papur yn cynnwys tystiolaeth o aeddfedrwydd cynyddol, datblygiad llwybrau, gwaith i lenwi'r fframwaith sicrwydd bwrdd yn erbyn uchelgais a risgiau, a'r gwaith cryfhau ar arweinyddiaeth yn yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Dywedodd hefyd fod gwasanaethau mamolaeth a meddyg teulu y tu allan i oriau wedi dod allan o fesurau arbennig erbyn hyn. 20.98.2 Cydnabu aelodau'r cynnydd a wnaed ond roeddent yn dal yn bryderus am allu'r sefydliad i symud allan o fesurau arbennig wrth barhau i ymateb i heriau parhaus y pandemig. Nododd y Cadeirydd fod llythyr yn cael ei anfon at Brif Weithredwr GIG Cymru yn dilyn cyfarfod diweddar ar y mesurau arbennig â Llywodraeth Cymru, a gofynnodd am iddo gael ei rannu â'r Aelodau Annibynnol. 20.98.3 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r adroddiad.	GH
EITEMAU AR GYFER CYDSYNIAD Cynigiodd y Cadeirydd y dylid symud yr adran hon ar yr agenda yn ei grynsyth, gan nad oedd unrhyw aelod wedi nodi ei fod yn dymuno trafod eitem arbennig.	
20.99 Cyfarwyddiadau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2018 Deddf Iechyd Meddwl 1983. Diweddariad ar Gofrestr Adran 12(2) Meddygon Cymeradwy ar gyfer Cymru a Diweddariad ar Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) 20.99.1 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn cadarnhau'r rhestr o ychwanegiadau a phethau a ddilëwyd ar Gofrestr Cymru Gyfan o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2) ar gyfer Cymru a Chofrestr Cymru Gyfan o Glinigwyr Cymeradwy.	
20.100 Crynodeb Blynyddol o Ymgynghoriadau 20.100.1 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r ymgynghoriadau allanol a ymatebwyd iddynt gan y Bwrdd Iechyd a'r trefniadau monitro cysylltiedig.	
20.101 Cylch Busnes Blynyddol y Bwrdd	

20.101.1 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn cymeradwyo'r Cylch Busnes Blynyddol	
20.102 Adroddiad Monitro Blynyddol Gwasanaethau Cymraeg ar gyfer 2019-20 20.102.1 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn cymeradwyo'r adroddiad, er mwyn iddo allu cael ei gyhoeddi a'i gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni'n flaenorol (sef erbyn diwedd mis Medi 2020)	
20.103 Adroddiad Monitro Cynnydd y Cynllun Blynyddol 20.103.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad yr adroddiad gan dynnu sylw at ddau faes ble'r oedd perfformiad wedi gwro'n sylweddol. I ddechrau, cyfeiriodd at adsefydlu strôc gan ddweud bod y cysyniad o ryddhau'n gynt yn mynd yn ei flaen drwy'r achos busnes a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad y llynedd, a chadarnhaodd fod hyn yn rhan o Gynllun drafft Chwarter 3/4 y Bwrdd. Yn ail cyfeiriodd at weithredu'r adolygiad therapïau seicolegol a chadarnhaodd bod arweinyddiaeth yn cael ei atgyfnerthu o gwmpas hyn. 20.103.2 Gwahoddwyd yr aelodau i roi sylwadau neu godi cwestiynau. Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Digidol (DIG) at weithred AN17.2, yn ymwneud â gweithredu Cam 2 y fenter Cymunedau Digidol a holodd a oedd hyn wedi ei ystyried a'i ddogfennu yn strwythurau'r pwyllgor. Cadarnhawyd bod y mater wedi'i drafod yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fel rhan o'r drafodaeth ar drawsnewid gwasanaethau cymuned ond byddai'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad yn sicrhau bod papur briffio yn cael ei baratoi i'r Pwyllgor DIG. Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor DIG at weithred AN32.2 a holodd pam bod problemau canolfan genedlaethol data yn cael effaith ar amserlenni a chostau lleol ar gyllid a gweithrediad System Adrannau Achosion Brys Cymru (WEDS). Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad fod yr achos busnes ar gyfer WEDS yn mynd drwy'r prosesau llywodraethu gofynnol ac roedd yn gobeithio y byddai'n cael ei drafod yn y Tîm Gweithredol cyn bo hir. Byddai'r datrysiaid lleol arfaethedig yn dibynnu ar isadeiledd y ganolfan genedlaethol data ac roedd methiannau diweddar yn y lleoliad hwnnw wedi arwain at bryderon oedd yn cael eu datrys. Ychwanegodd y Cadeirydd, o ran yr agenda digidol ehangach, ei fod wedi gofyn am bapur briffio ar gyfer Gweithdy'r Bwrdd a gynlluniwyd ar gyfer 8 Hydref. 20.103.3 Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaeth ac Iechyd y Boblogaeth (SPPH) at weithred AN19.3 a holodd pam bod y weithred i ddefnyddio dangosfwrdd gweithlu i ddynodi adnoddau staffio yn dangos fel ei fod ddim yn berthnasol ar gyfer mis Medi. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol fod hyn yn cyfeirio at eiriad yr amcan, a oedd yn barhaus yn hytrach nag un fyddai wedi gorffen erbyn diwedd mis Medi. Cyfeiriodd Cadeirydd yr SPPH hefyd at AN27.6 ynghylch trawsnewid y llwybr gofal llygaid a cheisiodd sicrwydd y byddai'r camau a gynigiwyd o 1 Hydref yn cael eu codi yn y cynllun Ch3/4. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad mai dyma oedd yr achos, fodd bynnag roedd gan rai agweddau elfennau adnodd ychwanegol cysylltiedig yr oedd oedi gyda'u cynnydd. Yn olaf, holodd Cadeirydd yr SPPH am y cyfathrebu â'r cleifion hynny nad oedd eu gofal wedi cael ei ddarparu yn ystod y pandemig, a chydabu'r Prif Weithredwr Dros Dro y byddai gofyn i	MW

agweddau cyfathrebu ehangach o ran dychwelyd at ofal wedi'i gynllunio fod yn brif elfen yn y cynllun Ch3/4. 20.103.4 Holodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio pam bod dwy weithred yn ymwneud ag apwyntiadau rhithiol (AN20.1 ac AN25.1) yn amber a gwyrdd yn y drefn yna. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod y statws amber ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol yn briodol gan nad oedd eto wedi cael ei gyflwyno ar y lefelau disgwyliedig. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad y byddai angen cynnal gwerthusiad o feddalwedd megis Attend Anywhere a Consultant Connect cyn ceisio cyllid i barhau i'w defnyddio yn 2021-22. 20.103.5 Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ddibyniaeth ar y Gronfa Gofal Canolraddol (ICF) i gefnogi llawer o fentrau gofal cychwynnol, a oedd yn rhai tymor byr yn aml iawn. Awgrymodd ei bod yn amserol i'r gwaith trawsnewid bennu ble'r oedd y blaenoriaethau buddsoddi ac i fesur y potensial ar gyfer sefydlu cronfa yn seiliedig ar gymhelliant i alluogi i gydweithwyr gofal cychwynnol a chymuned wneud cais am gyllid i gefnogi prosiectau tymor hwy - er enghraifft cefnogaeth weinyddol mewn Unedau Mân Anafiadau a sefydlu hwb gofal heb ei drefnu lleol mewn ysbyty cymuned. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned fod gwaith wedi dechrau eisoes ar resymoli a phrif ffrydio adnoddau gyda phartneriaid yn hytrach na dibynnu ar ICF yn unig. O ran cronfeydd yn seiliedig ar gymhelliant, nid oedd yn ymwybodol o rai eraill heblaw'r rhai a sefydlwyd eisoes megis cyllid clystyrau, ond cytunodd i feddwl am hyn gyda chydweithwyr yn y Timau Ardal. 20.103.6 Dywedodd y Cadeirydd hefyd ei fod yn dal yn bryderus am wasanaethau wroleg a'i fod yn cyfarfod â'r Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro Gofal Eilaidd i drafod hyn ac y byddai'n gwahodd y Prif Weithredwr Dros Dro i ymuno â nhw. Cyfeiriodd y Cadeirydd at weithred AN16.2 yn ymwneud â Thimau Ymateb Cymunedol a'r heriau a wynebier ar hyn o bryd o ran unigolion a thimau ar draws ieched, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector yn gweithio'n rhithiol neu o gartref. Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned fod rhai problemau o ran llywodraethu a chyfyngiadau muriau gwarchod sefydliadol, ond yn gyffredinol, roedd y maes hwn yn symud yn ei flaen. Cyfeiriodd y Cadeirydd at weithred AN18.6 ynghylch therapïau seicolegol a cheisiodd sicrhwydd bod hyn yn cael sylw fel blaenoriaeth. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro mai dyma'r achos a bod y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus, fel yr arweinydd gweithredol newydd, yn bwriadu cyfarfod â'r tîm cyn gynted â phosibl. 20.103.7 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r adroddiad. <i>[Gadawodd Ffrancon Williams y cyfarfod]</i>	CS
20.104 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad 20.104.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad yr adroddiad gan gydnabod fod y Bwrdd Iechyd yn dal i ymateb i sefyllfa'r pandemig ac yn paratoi at oblygiadau mwy o weithgarwch Covid-19 fel rhan o ail don, wrth ymateb i gyflawni ystod o wasanaethau newydd megis Profi, Olrhain, Diogelu. Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru wedi addasu ei ymagwedd rheoli perfformiad a byddai aelodau felly'n gweld gwahaniaethau yn yr adroddiad o ran cymharu perfformiad. O ran gofal heb ei drefnu, roedd y Bwrdd yn gweld perfformiad cryf yn erbyn mesurau traddodiadol ar gyfer llif mewn	

Adrannau Achosion Brys, ac roedd y niferoedd oedd yn mynychu yn dal yn llai na'r un cyfnod y llynedd. Roedd derbyniadau annewisol yn uchel, ac roedd pwysau penodol yn Ysbyty Glan Clwyd, gydag oedi sylweddol mewn trosglwyddo o ambiwlansys, oedd yn cael sylw gan y Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro. Roedd cyfeiriadau gofal wedi ei gynllunio yn ôl i fyny i lefelau cyn y pandemig, fodd bynnag roedd yr amseroedd aros cysylltiedig wedi cynyddu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad fod y sefyllfa hon yn cefnogi ymagwedd haeniad risg dan arweiniad clinigol, ond mai'r sefyllfa debygol oedd y byddai'r sefydliad yn adfer yr ôl groniat gofal wedi'i gynllunio am nifer o flynyddoedd. O ran diagnosteg, roedd perfformiad cryf mewn rhai meysydd megis canser, ond mewn radioleg, roedd nifer fawr o gleifion yn aros mwy na'r 8 wythnos safonol. Roedd hyn wedi ei drafod gan y Tîm Gweithredol o ran adnoddau ychwanegol, a hefyd y cyfle i drawsnewid gwasanaethau i wella'r gallu i recriwtio'n barhaol. Yn olaf, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad fod perfformiad cryf o ran absenoldeb salwch, a bod absenoldeb oherwydd rhesymau heblaw Covid-19 yn 4.6%.

20.104.2 Gwahoddwyd yr aelodau i roi sylwadau neu godi cwestiynau. Holodd Cadeirydd y Pwyllgor SPPH am absenoldeb staff oherwydd Covid-19, a sut oedd y rhai oedd wedi bod yn cysgodi yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn. Dywedodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol fod angen cynnal y pwyslais ar ostwng cyfraddau absenoldeb, a bod yn glir gyda staff y dylent weithio o gartref a lleihau eu cysylltiadau ble'r oedd hynny'n bosibl. O ran cysgodi, os oedd aelod o staff yn dymuno dychwelyd i'r gwaith, neu fod gofyn iddynt wneud hynny, rhaid cael asesiad risg penodol yn ei le, oedd yn cael ei asesu a'i adnewyddu yn dibynnu ar y data diweddaraf. Roedd yn cydnabod hefyd y gallai gweithio o bell godi problemau gydag unigrwydd a cholli perthnasoedd a chefnogaeth tîm.

20.104.3 Holodd y Cadeirydd am gynnydd y gwaith o ddynodi staff ychwanegol a lle i wella cydymffurfiaeth fflebotomi, a dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad fod y defnydd o ysbytai dros dro yn cael ei gadarnhau ar gyfer y diben hwn. Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd fod tua 60% o weithgarwch cyn Covid wedi ei golli oherwydd bod angen bodloni gofynion ymbellhau cymdeithasol.

20.104.4 Mynegodd y Cadeirydd bryder am y perfformiad gofal heb ei drefnu a'r dirywiad mewn trosglwyddo o ambiwlansys. Sicrhodd y Prif Weithredwr Dros Dro y Bwrdd ei bod yn hynod o awyddus i ddatrys y problemau hyn a'i bod wedi cyfarfod ag uwch dimau yn y dyddiau diwethaf i sicrhau bod camau di-oed 'Ei Wneud yn Ddiogel' yn eu lle a bod angen monitro manwl.

20.104.5 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn cael diweddariad ar ofal wedi'i gynllunio yn ei gyfarfod nesaf oherwydd y taflwybr ar gyfer radioleg ac endosgopi yn arbennig. Dywedodd y Prif Weithredwr Dros Dro bod gwelliant sylweddol wedi bod mewn perfformiad endosgopi a bod nifer o fentrau yn cael eu datblygu i gefnogi radioleg yn cynnwys defnyddio sganwyr symudol. Cydnabu'r Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd fod yr effaith wedi bod yn sylweddol ar ddiagnosteg, ar gyfeiriadau arferol ac agweddau dewisol fel ei gilydd. Ar hyn o bryd mae sganiwr CT ychwanegol yn Ysbyty Gwynedd yn cael ei ddefnyddio ac roedd cynlluniau i wneud y mwyaf o gapasiti MRI hefyd. O ran endosgopi, roedd capasiti ychwanegol drwy ddefnyddio adnoddau mewnol yn cael ei ystyried ac roedd cysylltiad â grwpiau cenedlaethol. Yn olaf, roedd y posibilrwydd o gael canolfan symudol diagnostig a thriniaeth

y gellid ei lleoli ble'r oedd yr angen mwyaf yn cael ei ymchwilio, ac roedd cyfeiriadau radioleg yn cael eu hasesu ar sail haeniad risg. O ran y ganolfan symudol diagnostig a thriniaeth, teimla'r Cadeirydd fod lle i'r Bwrdd fod yn uchelgeisiol ac i arwain y ffordd, hyd yn oed os oedd hyn yn golygu bod y canlyniadau buddsoddi yn cael eu hymdrin â nhw yn hwyrach ymlaen. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod yr ymagwedd hon wedi cael ei thrafod yn y Tîm Gweithredol ac roedd yn croesawu cefnogaeth y bwrdd i ddatblygu cyfleoedd fel hyn cyn gynted â phosibl.

20.104.5 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn derbyn yr adroddiad.

20.105 Adroddiadau Cyllid

20.105.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid yr adroddiadau, gan ganolbwyntio ar adroddiad M4. Tynnodd sylw at ystod o bwyntiau am effaith y pandemig ar y perfformiad ariannol. I osod rhywfaint o gyd-destun, dywedodd mai'r cynllun ar gyfer 2020-21 oedd diffyg o £40m, sef 3.6% o ddyraniad adnoddau'r Bwrdd yn seiliedig ar ddarparu cynllun arbedion o £45m. Sefyllfa M4 oedd diffyg o £3.3m, oedd yn unol â'r cynllun, a diffyg yn y flwyddyn hyd yma o £13.3m. O ran costau Covid, cyfanswm yr effaith oedd £9.2m y mis hwn a £52.6m y flwyddyn hyd yma. Roedd hyn yn cynnwys colli incwm o £1.6m y mis a £5.4m y flwyddyn hyd yma. Roedd methu â darparu arbedion yn £20.7m y mis a £12m y flwyddyn hyd yma. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid bod rhai eitemau i gael eu gosod yn erbyn y sefyllfa hon, y mwyaf oedd tanwariant dewisol oherwydd y mesurau y bu'n rhaid eu cymryd o amgylch Covid-19, sef £2.6m y mis hwn a £10m hyd yma eleni. O fewn sefyllfa M4 roedd cyllid Llywodraeth Cymru o £6.8m yn y mis, £50.2m yn y flwyddyn hyd yma a rhagolwg o £124.6m am y flwyddyn lawn. Roedd incwm tybiedig o £20.7m yn y sefyllfa hyd yma eleni a £79.6m yn y rhagolwg diwedd blwyddyn yn uwch na'r hyn a gadarnhawyd gan Lywodraeth Cymru. O ran darparu arbedion, roedd targed heriol o £45m ac roedd y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar hyn gyda dim ond £2.9m o arbedion hyd yma. Roedd y rhagolwg o £14.2m yn sylweddol is na'r targed ac mae'r diffyg yn rhan o gyllid tybiedig y Bwrdd gan Lywodraeth Cymru. Roedd gwir wariant Covid-19 yn £46.9m yn y flwyddyn hyd yma. Roedd £26.3m ohono'n ymwneud â'r ysbytai dros dro a £26.3m o hyn yn ymwneud â chomisiynu'r ysbytai hynny. Roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid yn dymuno cydnabod y cyflawniadau anhygoel wrth greu'r cyfleusterau hyn ar draws Gogledd Cymru.

Y sefyllfa arian parod ar ddiwedd mis Gorffennaf oedd £3.1m, £2.5m ohono wedi ei ddyrannu i gynlluniau cyfalaf. Oherwydd effaith Covid-19, roedd diffyg arian parod o £38.7m yn cael ei ragweld ar hyn o bryd, gellid rheoli peth o hyn yn y Bwrdd Iechyd ond byddai angen cefnogaeth Llywodraeth Cymru gyda pheth ohono. O ran y cyfyngiad adnoddau cyfalaf o £23.9m, roedd perfformiad yn unol â'r cynllun ar hyn o bryd. Roedd y Bwrdd wedi cyflawni yn erbyn y targed i dalu 95% o anfonebau heb fod yn rhai GIG cyn pen 28 diwrnod. Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid dair risg ariannol allweddol sef y rhagdybiaeth o gyllid Covid-19, ceisiadau Cronfa Risg Cymru a chyflawni arbedion. O ran y rhagdybiaeth o gyllid Covid-19, rhagwelwyd y byddai BIPBC yn cael gwybod ei siâr o'r dyraniad cyn bo hir fel rhan o'r arweiniad cynllunio ar gyfer Chwarter 3 a 4

20.105.2 Gwahoddwyd yr aelodau i roi sylwadau neu godi cwestiynau. Holodd Is Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a oedd costau Covid-19 yn debyg i Fyrddau eraill yn enwedig ble'r oeddent yn cael effaith ar ddarparu arbedion. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid eu bod yn debyg yn gyfatebol a'i bod yn disgwyl gwaith ychwanegol i ddechrau ynghylch adfer y rhaglen arbedion. Holodd Is Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad hefyd a fyddai cyllid penodol Covid-19 gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddyrannu ar sail wahanol i'r dyraniad blynyddol arferol ac a allai hynny olygu na fyddi BIPBC yn cael cyfran deg. Roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid yn teimlo y byddai'n gyfran deg ond na fyddai'n cael ei dyrannu drwy fformiwla arferol i adlewyrchu bod caffael sylweddol wedi'i wneud gan y Cyd Wasanaethau ar ran yr holl Fyrddau Iechyd. Ychwanegodd fod Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru wedi cynnal darn o waith am lywodraethu ariannol gwariant Covid-19 ond nad oedd yn ymwybodol o unrhyw bryderon nad oedd hyn wedi bod yn briodol. Teimla'r Cadeirydd ei bod yn werth nodi bod cell llywodraethu ariannol wedi cael ei sefydlu yn BIPBC yn ystod Covid-19. Cyfeiriodd hefyd at adolygiad o gomisiynu'r ysbytai dros dro a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am hyn a bod adroddiad manwl wedi'i dderbyn, a oedd yn ddefnyddiol, ac a oedd yn cydnabod cyflawniad comisiynu'r ysbytai dros dro yng Ngogledd Cymru. 20.105.4 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r adroddiad.	
20.106 Adroddiadau Sicrwydd Cadeiryddion Pwyllgorau a Grwpiau Cyngori 20.106.1 Pwyllgor Archwilio 28.7.20 Pwysleisiodd Cadeirydd y Pwyllgor mai cyfarfod ychwanegol oedd hwn i dderbyn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar brosiect datblygu Ysbyty Glan Clwyd, ac a oedd yn nodi'r camau allweddol a gymerwyd gan y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru i leihau risgiau mewn prosiectau adeiladu yn y dyfodol. 20.106.2 Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE) 28.8.20 a 29.7.20 Gofynnodd y Bwrdd Iechyd am linell amser ar gyfer yr adolygiad oedd yn cael ei gynnal yn erbyn yr argymhellion Holden ac adroddiadau allanol perthnasol eraill. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol ddiweddariad byr ar wasanaethau fasgwlaidd, sef bod cylch gorchwyl yr adolygiad wedi'i gytuno arno, a chydag amser arweiniol o tua 10 wythnos, roedd yn disgwyl cael yr adroddiad yn gynnar yn 2021. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod y Pwyllgor QSE wedi cael adroddiad defnyddiol gan y Cyfarwyddwr Dros Dro Nyrsio newydd yn yr Uwch Adran MHLDS yn gosod y blaenoriaethau gwaith i'r dyfodol. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd fod yr adroddiad blynyddol Rhoi Organau a Meinwe wedi ei ddarparu i aelodau'r bwrdd a dymunai gofnodi ei ddiolch i'r timau ac unigolion oedd yn rhan ohono am eu cefnogaeth i'r maes gwaith hwn yn ystod y pandemig. Cydnabu'r Cadeirydd hyn ar ran y Bwrdd. 20.106.3 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (F&P) 27.8.20 a 16.7.20 Nid oedd Cadeirydd y Pwyllgor yn dymuno tynnu sylw at unrhyw beth arall. 20.106.4 Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth 13.8.20 Atgoffodd Cadeirydd y Pwyllgor yr aelodau fod y Pwyllgor wedi cael ei ohirio ym mis Mawrth oherwydd y pandemig ond ei fod yn cyfarfod eto rwan, er bod agenda mawr iawn	DH

i'w reoli. Nododd bod ystod o adroddiadau wedi tynnu sylw at nifer o heriau ond roedd yn cydnabod y llwyddiannau o ran cadw gwasanaethau a rhaglenni'n rhedeg drwy gydol y pandemig Covid-19. Tynnodd sylw aelodau at sicrwydd allweddol yn ei hadroddiad am rôl y Brifysgol a statws y Bwrdd fel Bwrdd Iechyd Prifysgol. Dywedodd hefyd fod Wythnos Rithiol y Gymraeg yn cael ei chynnal yn ystod wythnos 12 Hydref ac anogodd yr aelodau i'w chefnogi.

20.106.5 Fforwm Partneriaeth Leol 7.7.20

Dyweddodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol fod agenda mis Gorffennaf wedi canolbwyntio'n drwm ar faterion yn ymwneud â Covid. Cydnabu mewnbwn hanfodol ac ymgysylltiad cydweithwyr Undebau Llafur (TU) i helpu i ganolbwyntio'r gweithlu ble mae angen iddo fod. Nododd yr Aelod Annibynnol (TU) fod partneriaid TU yn bositif o ran perthnasau staff/undebau/rheolwyr yn ystod y pandemig ac roedd yn teimlo bod cyfathrebu da wedi bod. Roedd hefyd yn croesawu gwaith y timau iechyd a diogelwch a'u cyfraniad at gadw staff yn ddiogel wrth ddychwelyd at ffyrdd mwy arferol o weithio.

20.107 Diweddariad yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

20.107.1 I ddechrau, dymunai'r Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus gofnodi ei diolch i David Fearnley fel cyn arweinydd gweithredol yr Uwch Adran. Yna aeth ymlaen i dynnu sylw at agweddau allweddol o'r adroddiad, yn enwedig y ffaith bod enghreifftiau da o gefnogi cleifion yn ystod y pandemig. Cyfeiriodd at y cynllun Cam 2 a ddatblygwyd gan yr Uwch Adran mewn trafodaeth â phartneriaid, gan nodi, er bod themâu positif, efallai bod y cynllun wedi bod yn rhy uchelgeisiol ar yr adeg hon. Ei barn oedd y byddai'r Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn helpu i ail ganolbwyntio ac ail sefydlogi'r ffordd ymlaen, a bod angen bod yn glir a chryno. Awgrymodd fod llwybrau clinigol yn allweddol i gynlluniau uwch adrannol llwyddiannus a bod cyfle yn awr i ail edrych ar y rhain dan arweinyddiaeth newydd Iain Wilkie (Cyfarwyddwr Dros Dro MHLDS) a Mike Smith (Cyfarwyddwr Dros Dro Nyrsio) ynghyd ag Alberto Salmoiraghi (Cyfarwyddwr Meddygol). Roedd yn dymuno cofnodi ei diolch i Lesley Singleton am ei gwaith yn arwain y tîm dros y misoedd diwethaf. Gorffennodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus drwy ddweud mai'r prif nod oedd symud yr uwch adran allan o fesurau arbennig i sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl mewn sefyllfa well.

20.107.2 Dywedodd un aelod fod yr egni newydd sy'n amlwg o'r papur yn cael ei groesawu, a'i bod hi'n bersonol wedi gweld cynnydd cynnar o ran gwaith partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol. Soniodd y Cadeirydd am gyfeiriad yn y papur at adolygiad yn ymwneud â rhyddhau nifer fawr o gleifion i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Gofal Cychwynnol Lleol, a gofynnodd am i gytundeb gael ei gyrraedd gydag Is Gadeirydd y Bwrdd Iechyd am y llwybr Pwyllgor cywir ac amserlen ar gyfer adrodd ymlaen i'r Bwrdd.

20.107.3 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn:

1. Nodi'r adroddiad sy'n crynhoi'r gwaith diweddar ar lwybrau gofal yn ystod y pandemig Covid-19, a cheisio sicrwydd pellach;
2. Cefnogi'r ymdrechion i sefydlogi arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr Uwch Adran fel blaenoriaeth;

TO

3. Cefnogi'r Uwch Adran MHLDD i reoli perthnasod allanol ar y cyd i alluogi'r newidiadau angenrheidiol i wasanaethau dros flwyddyn nesaf y pandemig Covid-19; 4. Cefnogi'r Uwch Adran MHLDD a newidiadau mewn rheolwyr ynddi, gan ei fod yn hwyluso gwaith partneriaeth fel y cam angenrheidiol nesaf i gyflawni gwytnwch cymunedol ehangach; 5. Cefnogi'r Uwch Adran MHLDD wrth iddi ddatblygu a gweithredu llwybrau gofal yn seiliedig ar dystiolaeth	
20.108 Adroddiad Diweddar - Economi Iechyd Clwstwr COVID-19 y Dwyrain 20.108.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth yr adroddiad a chadarnhaodd fod y clwstwr wedi cael ei gau yn swyddogol ar 17 Medi yn unol â diffiniadau clystyrau. Ar adeg ei gau, roedd 122 o achosion positif, 74 o'r rheiny wedi eu cael mewn gofal iechyd. Yn drist iawn, bu 41 marwolaeth gysylltiedig a dymunai gofnodi ei chydymdeimlad personol â'r teuluoedd oedd wedi colli anwyliad. Roedd 60 o staff hefyd wedi profi'n bositif ar y pryd. Aeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth ymlaen i adrodd y bu mewnbyn ac ymgysylltiad sylweddol gan randdeiliaid ar y pryd, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid ochr staff/undebau llafur. Dywedodd fod gwersi arwyddocaol wedi'u dysgu o'r clwstwr ac roedd y themâu wedi eu nodi yn y papur ynghylch symudiadau cleifion a staff a chadw at ymbellhau cymdeithasol. Roedd y ddyletswydd didwylledd â chleifion a theuluoedd hefyd wedi'i phwysleisio. Cafodd aelodau wybod bod grŵp cyflawni bellach wedi dechrau ar ei waith ac roedd nifer o ffrydiau gwaith cefnogol dan arweiniad gweithredwyr. Y flaenoriaeth fyddai i ymgorffori dysg i arferion cynladwy felly byddai hyn yn cael ei adlewyrchu mewn gweithdrefnau gweithredu safonol a phrofi sicrwydd. Yn olaf, nodwyd bod clystyrau o haint ar safleoedd llym eraill ar hyn o bryd a bod y dysg o Wrecsam yn cael ei ddefnyddio i helpu yn yr ardaloedd hyn. 20.108.2 Gwahoddwyd yr aelodau i roi sylwadau neu godi cwestiynau. Holodd Cadeirydd y Pwyllgor SPPH am yr effaith ar deuluoedd a staff a sut roeddent yn cael eu cefnogi. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth fod un pwynt cyswllt wedi cael ei sefydlu ar gyfer pob teulu i rannu gwybodaeth amserol. O ran y staff, roedd llawer yn teimlo'n ofidus oherwydd y niwed a achoswyd ac roedd cyfathrebu parhaus a chysondeb y negeseuon â nhw yn allweddol. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi ymweld â ward a effeithiwyd yn ddiweddar a mynegodd ei werthfawrogiad ar ran y Bwrdd i'r staff. Tynnodd yr ymweliad sylw at mor anodd y gallai hi fod i staff sicrhau bod rhai grwpiau o gleifion yn cynnal pellter cymdeithasol diogel. Nododd y Cadeirydd fod yr adroddiad yn cyfeirio at 3.6m a 2.6m fel lle gwag rhwng gwelyau. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth mai'r meincnod oedd 2.6m, ond bod yr arweiniad yn amrywio yn dibynnu ar oed yr eiddo a'r amrywiaeth yn ystad y Bwrdd. Ychwanegodd y Dirprwy Brif Weithredwr, fel rhan o'r mesurau amgylcheddol, bod asesiadau risg o garfannau o gleifion wedi eu cynnal a bod rhai gwelyau wedi cael eu tynnu oddi ar wardiau i gefnogi ymbellhau cymdeithasol. Roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus yn dymuno canmol staff am addasu'r arweiniad cenedlaethol a'i roi ar waith yn y safleoedd, gyda chefnogaeth werthfawr y tîm atal haint. 20.108.3 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r adroddiad fel sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer Cymuned Iechyd y Dwyrain.	

20.109 Rhaglen Brechu Covid-19 20.109.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus y papur, oedd yn rhoi diweddariad ar gynnydd cynllunio cynnar o ran rhaglen frechu ar gyfer Covid-19. Yn ddealladwy, roedd llawer o ddiddordeb ymhlith y cyhoedd a'r wasg yn y mater hwn, meddai. Cadarnhaodd fod Grŵp Cyflawni Tactegol wedi ei sefydlu gyda phartneriaid i symud y gwaith yn ei flaen ac roedd yn hyderus bod ymagwedd ranbarthol dda. 20.109.2 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn derbyn y wybodaeth ac yn nodi'r gwaith oedd ei angen i ddarparu rhaglen frechu fawr ar gyfer COVID-19 os/pan fydd brechlyn ar gael.	
20.110 Achos Strategol Amlinellol Cyfuno Meddygaeth Niwclear <i>[Ymunodd Ian Howard a Mark Elias â'r cyfarfod]</i> 20.110.1 Nododd y Cadeirydd fod yr adroddiad wedi ei ddarllen gan aelodau a'i archwilio yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd yn dymuno tynnu sylw at y problemau gyda'r drefn bresennol gyda'r sganiwr symudol ac mai'r ffordd ymlaen a ffafrir oedd datblygu canolfan ragoriaeth yn BIPBC. Dywedodd y byddai cymeradwyo'r achos strategol amlinellol yn agor y camau nesaf o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru parthed cyfalaf. Roedd yn dymuno cadarnhau bod ymgynghoriad wedi bod a bod cefnogaeth i'r cynnig, a dybiwyd y byddai'n darparu manteision hir dymor o ran gwasanaeth gwell ac arbedion ariannol. 20.110.2 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn cymeradwyo'r Achos Busnes i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. <i>[Gadawodd Ian Howard a Mark Elias y cyfarfod]</i>	
20.111 Crynodeb o Fusnes Preifat y Bwrdd i gael ei adrodd arno'n gyhoeddus 20.111.1 Penderfynwyd y dylid nodi'r adroddiad.	
20.112 Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) 20.112.1 Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth y byddai cydweithwyr HIW yn hapus i gymryd unrhyw gwestiynau gan aelodau y tu allan i'r cyfarfod. Nododd y themâu allweddol am atgyfnerthu dysg ledled y Bwrdd, y byddai angen ymdrin â nhw yn y Strategaeth Gwella Ansawdd.	
20.113 Fforymau Cymru Gyfan ac Eraill Penderfynwyd y byddai'r holl gofnodion a nodiadau briffio yn cael eu nodi.	
20.113.1 Cofnodion Cymeradwy y Fforwm Arweinyddiaeth Cydweithredol 15.1.20	

20.113.2 Cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys 14.7.20, 12.5.20 Crynodeb o'r Prif Faterion 8.9.20, 14.7.20	
20.113.3 Nodyn Briffio ar y Cyd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru 8.9.20 a 14.7.20	
20.113.4 Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau 23.7.20	
20.114 Dyddiad y Cyfarfodydd Nesaf Cyfarfod ar y Cyd gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned 10.00am 15 Hydref 2020 Cyfarfod y Bwrdd Iechyd 9.30am 12 Tachwedd 2020	
20.115 Heb y Wasg a'r Cyhoedd 20.115.1 Penderfynwyd eithrio cynrychiolwyr o'r wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn yng ngoleuni natur gyfrinachol y materion sydd i'w trafod, y byddai cyhoeddusrwydd arnynt yn niweidiol i ddiddordeb y cyhoedd yn unol ag Adran 1 (2) Y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960.	



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)

Cofnodion **Drafft** y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 24.9.20

Cyfarfod a gynhaliwyd dros Webex ac wedi'i ffrydio'n fyw

Yn bresennol:

Mark Polin	Cadeirydd
Nicky Callow	Aelod Annibynnol ~ Prifysgol
Cheryl Carlisle	Aelod Annibynnol
John Cunliffe	Aelod Annibynnol
Gareth Evans	Cadeirydd Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd
David Fearnley	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol
Sue Green	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol
Arpan Guha	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro (Dynodedig)
Gill Harris	Prif Weithredwr Dros Dro
Debra Hickman	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros Dro
Sue Hill	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro
Jackie Hughes	Aelod Annibynnol
Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol
Eifion Jones	Aelod Annibynnol
Lyn Meadows	Aelod Annibynnol
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus / Dirprwy Brif Swyddog
Dawn Sharp	Gweithredol Dros Dro
Chris Stockport	Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro
Adrian Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol
Mark Wilkinson	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd
Ffrancon Williams	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad
	Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid

Ymddiheuriadau:

Morwena Edwards	Aelod Cyswllt ~ Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Gavin MacDonald	Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro
Lucy Reid	Is-gadeirydd
Andy Roach	Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
Helen Wilkinson	Aelod Annibynnol

Yn bresennol:

Kate Dunn	Pennaeth Materion Corfforaethol - ar gyfer y cofnodion
John Morrell	Cymorth gwybodeg
Llinos Roberts	Rheolwr Busnes - Swyddfa'r Cadeirydd

Eitem ar yr Agenda a Draffodwyd	Gweithredu gan
A20.1 Croeso a Chyflwyniad	
A20.1.1 Ar ran y Bwrdd, croesawodd y Cadeirydd bawb i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Bwrdd Iechyd a oedd hefyd yn cael ei ffrydio'n fyw er mwyn galluogi aelodau'r cyhoedd i wyllo'r cyfarfod mewn amser real.	

A20.1.2 Dywedodd y Cadeirydd fod y newyddion yn ddiweddar wedi bod yn llawn straeon am gyfraddau cynyddol o drosglwyddo COVID-19 mewn cymunedau ledled y DU a bod cyfnodau clo lleol wedi'u cyflwyno erbyn hyn mewn rhai rhannau o Gymru. Ryw chwe wythnos yn ôl, roedd pryderon y byddai cyfnod clo lleol yn Wrecsam gan fod dros 60 o achosion yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac roedd gan yr ardal y gyfradd heintio uchaf a oedd i'w chael yng Nghymru. Fodd bynnag, yr wythnos ddiwethaf, roedd gan Wrecsam un o'r cyfraddau heintio isaf yng Nghymru ac roedd hyn yn fodd o dynnu sylw pa mor gyflym y gallai pethau newid pe na bai pobl yn dilyn yr arweiniad a oedd ar waith gan gynnwys ymbellhau cymdeithasol a golchi dwylo, yn aml. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi bod yn mynd ati'n rhagweithiol i annog pobl i wisgo masgiau a gorchuddion wyneb ar draws ei safleoedd ers cryn wythnosau mewn ymdrech i leihau risg heintio, ac mae gwisgo masgiau a gorchuddion wyneb dan do mewn mannau cyhoeddus wedi dod yn orfodol yng Nghymru, yn ddiweddar. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i'r holl staff, cleifion ac ymwelwyr wisgo gorchudd wyneb ym mannau cyhoeddus lleoliadau gofal iechyd, oni bai eu bod wedi'u heithrio rhag gwneud hynny. Aeth y Cadeirydd yn ei flaen i roi gwybod bod grŵp cyflenwi amlddisgyblaethol wedi'i sefydlu er mwyn gwneud yn siŵr bod dysgu o achosion yn Wrecsam yn parhau i gael ei rannu a'i ymgorffori ar draws y sefydliad. Roedd adroddiad llawn ar yr achosion gan gynnwys data ar yr holl achosion a marwolaethau'n cael ei lunio gan gydweithwyr ar draws y Bwrdd Iechyd gyda'r nod o'i gyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad ar 3 Tachwedd. Roedd y Cadeirydd yn awyddus i ddiolch i'r rheiny fu ynghlwm wrth y cyfan am eu cefnogaeth, eu proffesiynoldeb a'u diwydrwydd o ran helpu i reoli'r achosion a helpu i roi terfyn ar yr hyn a oedd wedi bod yn adeg heriol. Ychwanegodd fod nifer o achosion COVID-19 yn cael eu rheoli yn Ysbyty Glan Clwyd, yn ogystal â nifer fach yn Ysbyty Bae Colwyn ac Ysbyty Llandudno. Mae'n rhaid i'r Bwrdd barhau i fod ar ei wyladwraeth ac i barhau i gynnal safonau llym o ran atal heintiau bob amser ar bob un o'i safleoedd er mwyn cadw cleifion a staff yn ddiogel. Ychwanegodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod yr achosion yn ysbytai'r canol yn cael eu harolygu ar lefel weithredol a bod gwelliannau'n dod i'r amlwg erbyn hyn. Roedd ymagwedd tîm i reoli achosion wedi'i gamu i fyny ac roedd y Bwrdd yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod y wybodaeth orau bosibl ar gael.

A20.1.3 Nododd y Cadeirydd y byddai'n trosglwyddo i'r Prif Weithredwr Dros Dro i gyflwyno'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon gyda chlip fideo byr i ddilyn.

A20.2a Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019/20

A20.2a.1 Croesawodd y Prif Weithredwr Dros Dro y cyfle i gyflwyno'r adroddiad blynyddol a chyfrifon 2019-20 i'r Bwrdd. Rhoddodd gyflwyniad a oedd yn cynnwys: Myfyrdodau ynghylch y flwyddyn ddiwethaf

- Heriau o ran strategaeth, arweinyddiaeth, cyllid, perfformiad, gofal wedi'i gynllunio ac effaith y pandemig.
- Yr ymateb deinamig i Covid-19 a oedd yn creu cyfleoedd yn ogystal â risgiau.
- Cynnydd yn erbyn Mesurau Arbennig a oedd yn cynnwys ystod o welliannau ond hefyd feysydd lle'r oedd angen gwaith pellach.

Uchafbwyntiau o ran Cynnydd

- BIPBC oedd un o'r gorau yng Nghymru am amddiffyn y boblogaeth trwy raglenni imiwneiddio.

- Achubwyd ar y cyfle i atgoffa aelodau, cleifion a'r cyhoedd bod y rhaglen brechu rhag y fflw wedi dechrau erbyn hyn ac y dylid annog pawb i amddiffyn nhw eu hunain ac eraill.
- Bod BIPBC yn un o'r gorau yng Nghymru o ran yr amser y bydd cleifion sy'n cael diagnosis cancer yn dechrau ar eu triniaeth.
- Lleihad cyson yn nifer y cleifion lle'r oedd oedi cyn eu rhyddhau o'r ysbyty.
- BIPBC oedd y gorau yng Nghymru am adrodd ar ddigwyddiadau anffafriol difrifol ac ymateb iddynt.
- Roedd gwelliant sylweddol o ran cyflymder ymateb i gwynion.
- Roedd nifer y 'digwyddiadau byth bythoedd' wedi'u lleihau.
- Roedd ystod o welliannau ansawdd a diogelwch fel y'i nodwyd yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol.

Blaenoriaethau ar gyfer y Dyfodol

- Yr angen i fod yn barod i ymateb i unrhyw gynnydd pellach o ran COVID-19 ac i gael adferiad cyflym o effaith y pandemig.
- Y gwersi a ddysgwyd o'r argyfwng iechyd a chyfleoedd i drawsnewid.
- Ymdrechion parhaus i geisio codi'r Mesurau Arbennig.
- Darparu gofal diogel heb ei drefnu.
- Parhau i gynnig gofal o dan "wasanaethau hanfodol" a sicrhau bod gofal wedi'i gynllunio'n cael ei gynyddu fesul cam gan flaenoriaethu.
- Integreiddio a gwella gwasanaethau iechyd meddwl yn ddiogel.
- Ymateb i her effaith Covid-19 ar iechyd meddwl a lles staff, cleifion a'r cyhoedd.
- Darparu amgylcheddau diogel a chadarn yn cynnwys materion ystadau a darparu cyfarpar diogelu personol.
- Defnydd effeithiol o'n hadnoddau.
- Parhau i gydweithio â phartneriaid strategol allweddol, cleifion a'r cyhoedd.
- Parhau i gymhwyso egwyddorion arfer gorau o ran llywodraethu'r sector cyhoeddus.
- Ymateb i effaith pwysau'r tymorau sydd i ddod.

A20.2a.2 Nododd Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid, yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar wefan y Bwrdd Iechyd, fod pwynt yn ymwneud â manwl-gywirdeb wedi'i godi mewn perthynas ag ôl-nodyn 18 i'r tabl o gyfanswm tâl uwch reolwyr, a ymddangosodd ar dudalen 77. Er bod y nodyn hwn yn gywir o ran Mr Williams a Mrs Edwards, dylai nodyn 19 ar wahân fod wedi cael ei wneud mewn perthynas â Mr Evans, Aelod Cysylltiol o'r Bwrdd a Chadeirydd y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol, yn datgan *"Mae Mr Evans wedi'i gyflogi gan y Bwrdd Iechyd mewn rôl rheoli gweithredol ar sail barhaol. Nid yw Mr Evans yn derbyn tâl ychwanegol am ei rôl ar y Bwrdd"*. Yn ogystal, yn dilyn ystyriaeth yn y Pwyllgor Archwilio, roedd Mrs Jackie Hughes, Aelod Annibynnol o'r Bwrdd, wedi gofyn am fanylion ychwanegol mewn perthynas â'r buddiant cyntaf a ddatganodd, yr adroddir arno yn Nodyn 34 y Cyfrifon Blynyddol ar dudalen 73A, i egluro bod dau o'i phlant wedi'u cyflogi gan y Bwrdd Iechyd a bod ei thrydydd plentyn yn gweithio gyda Chymdeithas Frenhinol y Gwirfoddolwyr yn Ysbyty Gwynedd. Roedd gwall teipio yn ymwneud â sillafiad enw Mr J Cunliffe wedi'i nodi hefyd.

A20.2a.3 Gwahoddwyd cwestiynau neu sylwadau gan aelodau. Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio am sicrwydd pellach ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod y sefydliad yn cael dod allan o Fesurau Arbennig. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod dull cyfarfod teir-ran yn parhau ar lefel genedlaethol yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Archwilio Cymru, a bod trafodaethau'n parhau o ran

egglurder disgwyliadau ar gyfer y misoedd sydd i ddod. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Dros Dro at welliannau o ran mynediad at wasanaethau a gofal wedi'i gynllunio ond cydnabu fod mwy o waith i'w wneud. Gwnaeth gydnabod hefyd bwysigrwydd y gydberthynas â'r sector gwirfoddol. Holodd Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ynghylch capasiti'r rhaglen brechu rhag y fflw. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod fersiwn ddrafft ar gyfer cynllun brechu wedi'i datblygu gyda phartneriaid sydd hefyd yn cynyddu'r adnoddau y gallent eu cynnig o ran adeiladau. Cydnabu Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus fod capasiti'n her bob amser ond bod pryderon yn amlwg yn cynyddu wrth i aeaf 2010-21 nesáu oherwydd pandemig Covid-19. Roedd hi'n gobeithio'n bersonol y byddai cynlluniau'r sefydliad yn ddigonol i gynnal y rhaglen frechu yn y gymuned, ond, roedd yn teimlo y byddai'r her yn ymwneud â defnydd o staff. Cyfeiriodd Cadeirydd y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol at fuddion gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol (RPB). Roedd y Prif Weithredwr Dros Dro yn gwbl ymwybodol bod cymorth cydweithwyr gofal cymdeithasol yn hollbwysig o ran cynnig gofal iechyd yng Ngogledd Cymru a chydabu fod ystod o fentrau a ddeilliodd o'r RPB bellach yn weithredol ac yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd mae gofal yn cael ei gynnig. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus fod adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi ar gyfer y RPB. Cyfeiriodd hefyd at waith hollbwysig y sector gwirfoddol a chydweithwyr mewn cyrff cyhoeddus eraill, a bod strategaeth genedlaethol fel "Cymru Iachach" hefyd wedi helpu i bennu'r fframwaith cyflwyno. Ychwanegodd y Cadeirydd ei fod yn parhau i gyfarfod ag Arweinwyr y Cyngor yn rheolaidd a'i fod yn parhau i deimlo'n bositif am y gydberthynas ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

A20.2a.4 Yna, cafodd fideo byr ei ddangos a oedd yn dangos cyflawniadau ar gyfer 2019-20

A20.2b Datganiad Ansawdd Blynyddol (AQS)

A20.2b.1 Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth gyflwyniad yn amlinellu:

- Cyd-destun a nod yr AQS.
- Agweddau ar ddiogelwch cleifion gan gynnwys prosiectau cydweithredol ar gyfer codymau, wlserau gwasgu a sepsis; gwobr ar gyfer Uned Gofal Dwys Plant ar gyfer Iechyd Meddwl yn Wrecsam a'r broses achredu wardiau.
- Ystod o ddulliau effeithiolrwydd clinigol fel lefelau derbyn imiwneiddiadau rhag y fflw; lansio dulliau Rheoli Risg Trawma; prosiect Adref yn Gyntaf; darparu Hyfforddiant Gwella Ansawdd Arian; ardystio llwybrau a'u hailgychwyn.
- Agweddau ar ddulliau profiad cleifion fel lansio gwasanaethau PALS; cynnal cynhadledd Cymru Gyfan ar namau synhwyraidd; yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Gwynedd yn cael ei graddio fel un o'r lleoedd gorau i hyfforddi yn y DU a hyfforddi 1000 o staff mewn gofal dementia.
- Ystod o feysydd ar gyfer gwella yn cynnwys ailgychwyn gwasanaethau a gafodd eu gohirio yn ystod COVID; ail achosion Digwyddiadau Byth Bythoedd llawfeddygol o'r niwed lleiaf; dysgu o ddigwyddiadau a chwynion; gwella galluedd gwella ansawdd a chryfhau strwythurau llywodraethu.
- Crynodeb o faterion ansawdd yn ymwneud â Covid-19 fel newidiadau cyflym a wnaed mewn ymateb i'r pandemig; rhaglen hyfforddi "Yn ôl i'r Llwr"; hybiau

gweithlu sydd wedi'u sefydlu i ategu adleoli; gweithio mewn partneriaeth â'r brifysgol; ymateb wedi'i arwain yn glinigol wedi'i lywio gan dystiolaeth glir ac effaith glir grymuso staff clinigol Blaenoriaethau ar gyfer 2020-21 yn cynnwys datblygu strategaethau newydd ar gyfer Ansawdd, Diogelwch Cleifion, Profiad Cleifion a Gofalwyr; lansio Dangosfwrdd Ansawdd newydd; diwygio'r broses Gweithio i Wella; lansio Cyfadran Ffactorau Dynol newydd a lansio methodoleg gwella Gofal Iechyd ar sail Gwerthoedd A20.2b.2 Cafwyd trafodaeth. Holodd y Cadeirydd p'un a oedd gwersi wedi'u dysgu o achosion Covid yng Ngogledd Cymru a chadarnhawyd bod cryn dipyn o wersi wedi'u dysgu o achosion yn Wreccsam gan fod camau unioni wedi'u cymryd mewn amser real. Roedd trosi'r dysgu yma ar draws y Bwrdd Iechyd trwy broses dan arweiniad gweithredwyr yn helpu'r sefydliad i reoli achosion neu glystyrau llai'n well - er enghraifft, yn Ysbyty Glan Clwyd. A20.2b.3 Cyfeiriodd Aelod Annibynnol at yr her yn ymwneud â diogelwch sy'n deillio o ailgychwyn gwasanaethau eraill yn yr amgylchiadau parhaus. Nododd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros Dro na fyddai'r heriau'n ymwneud â throsglwyddo Covid yn cael eu tanbrisio ond y byddai angen i'r sefydliad weithio ar y rhain wrth iddo sicrhau bod gwasanaethau'n ôl ar-lein. Nododd y gallai fod ar rai gwasanaethau angen ymagwedd wahanol o gymharu â sut roeddent cyn Covid. Ychwanegodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod amddiffyn staff a'r cyhoedd yn hollbwysig wrth fagu hyder ynghylch dychwelyd at wasanaethau mewn ffordd ddiogel. Yn ogystal, nododd y Cadeirydd fod disgwyl i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ystyried papur ar gyfleoedd mewn gofal wedi'i gynllunio yn ei gyfarfod nesaf. A20.2b.4 Derbyniwyd y Datganiad Ansawdd Blynyddol gan y Bwrdd Iechyd.	
A20.2c Cyfrifon Ariannol Blynyddol A20.2c.1 Croesawodd y Prif Weithredwr Dros Dro y cyfle i gyflwyno'r cyfrifon ariannol blynyddol i'r Bwrdd. Nododd y gellid gweld effaith Covid-19 ar draws pob agwedd ar berfformiad ariannol, ac aeth yn ei blaen i roi cyflwyniad a oedd yn cwmpasu: - Perfformiad y Bwrdd yn erbyn targedau statudol a thargedau ariannol yn 2019-20 - Nad oedd y targed i ddatblygu cynllun integredig yn y tymor canolig wedi'i gyrraedd ac felly, roedd yn ofynnol iddo ddatblygu Cynllun Gweithredol Blynyddol. - Crynodeb o wariant refeniw yn cynnwys £1.2m a oedd yn ymwneud yn benodol â Covid-19. - Crynodeb o wariant yn ôl uwch adran, gan nodi mai'r unig gategori lle bu llawer o symudiad flwyddyn ar ôl blwyddyn oedd y categori "arall". - Crynodeb o wariant yn ôl categori. - Defnydd o staff asiantaeth a bod y duedd sy'n codi'n raddol yn cael ei rheoli. - Buddsoddiadau cyfalaf yr oedd 40% o'r rhain yn gysylltiedig ag ystadau. - Roedd y cyfrifon wedi'u cyflwyno yn unol â therfyn amser cytunedig Llywodraeth Cymru ac felly, ni chafodd unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau adrodd eu canfod yn ystod yr archwiliad. Nodwyd cydnabyddiaeth o'r cyflawniad hwn o ystyried sefyllfa'r pandemig ar adeg coladu'r cyfrifon. - Rhagolwg ar gyfer 2020-21 a oedd yn ymgorffori gwaith yn ymwneud â'r fframwaith Mesurau Arbennig, mynd i'r afael â'r her ariannol a gofynion arbedion, mynd i'r afael	

â phwysau gweithredol, newid trawsffurfiannol sylweddol i wella perfformiad ariannol ac ymateb i sefyllfa barhaus Covid-19. A20.2c.2 Gwahoddwyd cwestiynau a sylwadau gan aelodau. Roedd y Cadeirydd yn awyddus i gofnodi, er nad oedd diffyg ariannol y sefydliad wedi gwella'n sylweddol yn ystod y flwyddyn, fod lefel sylweddol o arbedion wedi'i gyflawni. Yn ogystal, roedd pwysau cost sylweddol yn effeithio ar y gallu i leihau'r diffyg ymhellach fel costau rhagnodi a meddyginiaethau. O ran costau asiantaeth, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol fod y sefyllfa wedi gwella ond bod y pandemig yn parhau i effeithio arni. Cyfeiriodd at ddatblygu banc mewnol dros dro a fyddai'n helpu i ddatblygu gweithlu mwy hyblyg.	
A20.3 Diweddariad ar y Mesurau Arbennig A20.3.1 Cynigiodd y Cadeirydd gan fod Mesurau Arbennig wedi derbyn sylw mewn cyflwyniad cynharach, y dylai'r cyfarfod symud ymlaen i'r eitem nesaf ar yr agenda. Derbyniwyd hyn.	
A20.4 Rhagolwg A20.4.1 Cynigiodd y Cadeirydd gan fod rhagolwg wedi'i roi mewn cyflwyniad cynharach, y dylai'r cyfarfod symud ymlaen i'r eitem nesaf ar yr agenda. Derbyniwyd hyn.	
A20.5 Sesiwn Holi ac Ateb A20.5.1 Nododd y Cadeirydd mewn blynyddoedd blaenorol fod fforwm agored wedi'i gynnal lle derbyniwyd cwestiynau o'r llawr, ond, o ystyried natur rithwir y cyfarfodydd ar hyn o bryd, roedd cwestiynau wedi'u gwahodd ymlaen llaw. Roedd naw cwestiwn wedi dod i law, yr oedd rhai o'r rhain yn ymwneud ag unigolion neu faterion penodol a oedd yn destun proses barhaus. Ar sail hyn, tybiwyd ei bod yn amhriodol trafod manylion pob un o'r rhain mewn fforwm cyhoeddus gan y gallai effeithio ar breifatrwydd ac urddas aelodau unigol o staff, a'u ffydd a'u hyder yn y sefydliad. Er mwyn tryloywder, roedd y themâu perthnasol wedi eu hehangu i ganiatáu ymateb grŵp lle bo'n briodol. Roedd y Cadeirydd yn awyddus i roi sicrwydd i aelodau a'r sawl a oedd yn gwylio'r cyfan y byddai'r unigolion hynny a oedd wedi gofyn cwestiynau o'r natur a ddisgrifiwyd yn derbyn ymateb personol a fyddai hefyd yn cael ei rannu gydag aelodau'r Bwrdd. A20.5.2 Roedd y cwestiwn cyntaf mewn perthynas ag arwain Cyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a gwnaeth Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus ymateb gyda'r datganiad canlynol: <i>"Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i sefydlogi strwythur presennol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLDD), fel y gallwn gefnogi gwelliannau i'n gwasanaethau trwy ddarpariaeth ddiogel ac effeithiol, a thrwy weithio'n well mewn partneriaeth. Yn ddiweddar, rwyf wedi camu i rôl arwain gweithredol y Gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Gallaf gadarnhau, ochr yn ochr â'n Cyfarwyddwr Meddygol, Dr Alberto Salmoiraghi, ein bod bellach wedi penodi dau gydweithiwr profiadol i arwain y gwasanaethau. Mae Mr Iain</i>	DS

Wilkie wedi dechrau fel Cyfarwyddwr Dros Dro MHLDD, ac mae Mr Mike Smith wedi dechrau fel Cyfarwyddwr Dros Dro Nyrsio MHLDD. Rwy'n ymwybodol bod nifer o gwynion yn cael eu codi mewn Gwasanaethau Seicoleg ac rwy'n awyddus i gyfarfod â phenaethiaid gwasanaethau dros yr wythnosau sydd i ddod." Roedd y Cadeirydd am ategu bod y pryderon hyn yn cael eu rhannu ar draws y Bwrdd a bod y newidiadau arfaethedig yn amserol a bod croeso iddynt o ran cadarnhau ffordd ymlaen ar gyfer iechyd meddwl. Dywedodd hefyd fod gan y Cyngor lechyd Cymuned bryderon rhesymol a bod cyfarfod wedi'i drefnu i drafod y rhain.

A20.5.3 Roedd tri chwestiwn wedi'u derbyn yn ymwneud â gallu staff i godi pryderon, a materion yn ymwneud â bwlio ac aflonyddu. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol gyda'r datganiad canlynol o ran codi pryderon:-

"Ynghyd â gweddill y GIG ar draws y DU, ac yn gyson â'r Byrddau lechyd eraill yng Nghymru, mae gan y Bwrdd lechyd hwn ymrwymiad clir ar waith i sicrhau ein bod yn gwrando ar bryderon sy'n cael eu codi gan ein staff a'n bod yn gweithredu arnynt i wella'r ffordd y caiff gofal a gwasanaethau eu cyflwyno a'r profiad sy'n deillio o hyn a'r ffordd y gall staff gyfrannu at hyn. Tra bod polisïau a phrosesau ar waith, yn ogystal â chyfleusterau i alluogi cydweithwyr i godi pryderon mewn ffordd ddiogel, mae bob amser welliannau y gellir eu gwneud, yn enwedig o ganlyniad i adborth gan y rhai sy'n gysylltiedig ac a gododd y pryderon. Yn ogystal â'r broses o godi pryderon, gall cydweithwyr godi pryderon yn anffurfiol ac maent yn gwneud hynny gyda rheolwyr llinell yn y fan a'r lle neu drwy'r weithdrefn Gwyno ac yn ffurfiol unwaith eto trwy'r Weithdrefn Gwyno neu'r weithdrefn Urddas yn y Gwaith. Caiff pryderon eu "hymchwilio" mewn ffordd briodol gan amrywio o sgysïau unigol neu ar y cyd gan gynnwys ymchwiliadau ffurfiol sy'n cael eu cynnal naill ai gan yr unigolyn priodol a enwir yn y Bwrdd lechyd neu, mewn rhai amgylchiadau, lle bo angen capasiti, annibyniaeth neu arbenigedd ychwanegol, caiff ymchwilydd allanol ei benodi. Mae'r rhain yn wahanol iawn i adolygiadau gwasanaeth llawn sy'n cael eu comisiynu gan y sefydliad neu gan gyrff arolygu/rheoleiddio allanol. Un o'r elfennau mwyaf pwysig i unrhyw sefydliad o ran sicrhau bod ymddiriedaeth a hyder o ran codi pryderon yw'r ffordd y caiff pryderon eu hadolygu a sut caiff camau gweithredu eu cyfleu h.y. cau'r ddolen fel bod yr unigolyn sydd wedi tynnu sylw at broblem yn hyderus ei bod yn werth chweil gwneud hynny a'i fod yn deall yn glir pa gamau sydd wedi'u cymryd neu nad ydynt wedi'u cymryd a'r rhesymau dros hyn. Mae hyn yn rhywbeth nad yw wedi'i gyflwyno neu'i gyflawni yma ac felly, mae adolygiad ar y cyd o gyfleusterau rheoli'r broses codi pryderon ar y gweill. Mae hyn yn cael ei arwain gennyf i fel Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. Mae'r amserlen i gwblhau'r adolygiad o fewn y mis nesaf yn ddibynnol ar ein gallu i gysylltu â'r rheiny sydd wedi bod ynghlwm wrth rai o'r achosion er mwyn i ni gael gwybod am eu profiad gwirioneddol. Byddwn, wrth reswm, yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid Undebau Llafur er mwyn sicrhau ein bod yn cydweithio i wneud y gwelliannau y mae ein staff a'n cleifion yn haeddu eu gweld." O ran bwlio ac aflonyddu, ymatebodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol gyda'r datganiad canlynol:- *"Caiff unrhyw honiad o fwlio, gan unrhyw unigolyn neu grŵp staff ei gymryd o ddifrif gan y sefydliad a chaiff yr holl achosion eu rheoli trwy'r Polisi Cymru Gyfan priodol, h.y. ei ddatblygu ar sail Cymru Gyfan a chaiff ei ddilysu gan Fforwm Partneriaethau Cymru gan gynnwys*

partneriaid undebau llafur. Mae'r polisi hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd fel rhan o ddysgu parhaus. Ym mhob achos, lle ceir honiadau o fwlio, caiff ymchwiliad priodol ei gynnal. Os oes tystiolaeth i ddangos bod ymddygiad yn is na'r safonau sy'n ofynnol gan y sefydliad, caiff camau eu cymryd i ddatrys y pryderon sydd wedi codi. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion o'r fath, mae'r problemau'n ymwneud â methiant o ran y gydberthynas ac argymhellir defnyddio cyfryngu. Nod y polisi drafft newydd, y mae Fforwm Partneriaethau Cymru yn ymgynghori arno ar hyn o bryd, yw cryfhau'r agwedd hon ar y polisi trwy roi mwy o bwyslais ar ddatrys methiannau o ran cydberthynas lle bo tystiolaeth annigonol o fwlio i fynd ymlaen at gamau disgyblu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith diogel a chadarn, yn rhydd rhag aflonyddu a bwlio a sicrhau bod yr holl staff yn cael eu trin gydag urddas a pharch, a'u bod yn trin eraill yn yr un ffordd. Ni fydd y sefydliad yn goddef unrhyw ffurf ar fwlio ac aflonyddu sy'n digwydd yn y gwaith a'r tu allan i'r gweithle neu ar y cyfryngau cymdeithasol a bydd yn cymryd pob cam rhesymol i'w osgoi a'i waredu. Nid yw ymddygiad a ellid ei ddisgrifio fel bwlio a/neu aflonyddu'n ffafriol i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd effeithiol a gall danbrisio hyder a pherfformiad ein staff. Gall effeithio ar eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl a'u lles a gall eu harwain at fod yn absennol o'r gwaith. Gellir teimlo effeithiau cydberthynas wael rhwng unigolion ar draws Sefydliad y GIG a gall gael effaith ar y gofal a roddir i gleifion yn y pen draw. Yn ymrwymedig i symud ymlaen mewn ffordd adeiladol a chadarnhaol."

A20.5.3 Roedd y cwestiwn nesaf yn ymwneud ag Amseroedd Aros Orthopaedig a gwnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad ymateb gyda'r datganiad canlynol: "Diolch yn fawr i'r claf a gododd y cwestiwn ac rydym yn cydnabod bod pobl yn aros yn rhy hir i dderbyn mynediad i ofal wedi'i gynllunio. Rydym yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â hyn. Mae ein gwasanaethau orthopaedig ymhlith y gwasanaethau lle bod yr heriau mwyaf o ran amseroedd aros. Maent yn cyfrif am ryw 30% o bobl sy'n aros yn rhy hir yn ôl diffiniadau Llywodraeth Cymru. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae hyn wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd a'r llynedd, cafodd cynnydd ei wneud trwy benodi chwe meddyg ymgynghorol orthopaedig ychwanegol - ar ben ein tîm presennol o ryw 30. Maent wedi dechrau yn eu swyddi yn ystod 2020, yn bennaf. Buddsoddi hefyd mewn gwasanaethau cyhyrysgerbydol cymunedol sy'n gallu osgoi'r angen i bobl fod angen llawdriniaeth yn y lle cyntaf trwy eu cyfeirio at ffisio, rhaglenni ymarfer corff ac ati. Serch hynny, mae nifer y bobl sy'n aros wedi parhau i gynyddu yn 2020 ac yn enwedig yn ystod y pandemig. Nid yw maint y rhestr aros yn gyffredinol yn tyfu ar yr un graddfa gan fod llai o gyfeiriadau rheolaidd yn ystod rhan gyntaf y pandemig, o gymharu â lefelau cyn Covid, ond o fewn hynny, mae arosiadau hir yn cynyddu. Mae theatrau yn parhau i weithredu ar ryw 30% o'u gweithgarwch cleifion cyn Covid, mae'r ysgogwyr i'r gweithgarwch cyfyngedig hwn yn parhau i ymwneud â chapasiti staff a gwelyau wrth i ni ymateb i achosion annisgwyl ac ysbeidiol o Covid. Mae gwaith yn parhau i aildechrau gweithgarwch gofal wedi'i gynllunio ac ymddengys fod mis Medi yn dangos gwelliant. Mae dychweliad gweithgarwch theatrau ar ogwydd llai yn hytrach nag ar godiad serth. Mae orthopaedeg yn arbenigedd allweddol i ni ddatblygu ein dulliau newydd i reoli rhestrau aros a rhan allweddol o hyn yw haenau risg. Gan ddefnyddio'r dull hwn, nid yw'r meini prawf allweddol ar gyfer pennu mynediad i ofal yn ymwneud gymaint ag amseroedd aros ond mae'n ymwneud i

raddau helaethach ag asesiadau clinigol ar sail niwed. Mae hyn yn caniatáu i ni fod yn sicr bod y rhai sydd â'r angen mwyaf yn derbyn gofal tra bod ein capasiti'n cael ei gyfyngu'n angenrheidiol." Ychwanegodd y Cadeirydd fod awydd cydweithwyr clinigol i aildddechrau gwasanaethau cyn gynted â phosibl yn hynod galonogol a bod llawer o enghreifftiau o sgysiau cadarnhaol a chydgyssylltiedig. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad fod cysyniad rhwydwaith glinigol ar draws Gogledd Cymru wastad wedi bod yn ddull dymunol ac un o fanteision y pandemig oedd bod mwy o lawer o barodrwydd i symud i'r cyfeiriad hwn.

A20.5.4 Roedd y cwestiwn nesaf yn ymwneud ag wroleg a gofynnodd "Yn 2020, pam mae byw yn ardal GIG Betsi Cadwaladr yn waeth na byw mewn ardal gwasanaeth iechyd yn y trydydd byd?" Ymatebodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad gyda'r datganiad canlynol:

"Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod ein bod wedi gweld rhai heriau allweddol yn ein Gwasanaeth Wroleg dros y blynyddoedd diwethaf gan ein bod wedi colli rhai o'n gweithlu meddygon ymgynghorol ac anawsterau o ran recriwtio rhai newydd. Fodd bynnag, ers mis Mehefin, mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i recriwtio llawfeddyg canser hynod fedrus ac uchel ei barch, sy'n arbenigo mewn canserau wroleg cymhleth, ac rwy'n falch o adrodd, bythefnos yn ôl iddo gynnal y llawdriniaeth systectomi gyntaf yng Ngogledd Cymru mewn bron i dair blynedd, a chyn hynny, bu'n rhaid i gleifion deithio i Lerpwl. Mae ganddynt nifer o gleifion i'w trin dros yr wythnosau sydd i ddod. Mae hyn yn gam ymlaen arwyddocaol ac mae wedi bod yn ysgogydd i recriwtio pellach gan y bydd dau feddyg ymgynghorol ychwanegol yn dechrau gyda ni ym mis Rhagfyr. Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i weithio ar raglen Cymru Gyfan i gyflwyno rhaglen gynhwysfawr ar gyfer Llawdriniaeth â Chymorth Robotig (RAS) i'n halinio â gweddill Cymru a'r DU, felly rydym yn mynd i'r afael â'r hyn a wyddom sy'n annheg i bobl Gogledd Cymru a bydd o gymorth i recriwtio staff ychwanegol". Ychwanegodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn yn bersonol am ddatganiad sefyllfa ar wroleg gan ei fod yn rhannu pryderon ynghylch y gwasanaeth. Holodd am y terfyn amser ar gyfer rhaglen RAS a chadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad fod Gogledd Cymru yn chwilio am gynnis lleol dros dro a byddai'n disgwyl i fanylion gael eu rhannu gyda'r Tîm Gweithredol dros yr ychydig wythnosau nesaf.

MW

A20.5.5 Roedd y cwestiwn nesaf a dderbyniwyd yn darllen "Mark Polin, Cadeirydd Betsi - a yw Betsi'n canolbwyntio ar wneud busnes y system - yn goddef safonau gwael a risg i gleifion - yn methu â meithrin diwylliant cadarnhaol i nyrsys a meddygon - yn caniatáu diwylliant o ofn a bwlio - yn anwybyddu cyngor proffesiynol mai'r hyn sydd wrth wraidd anawsterau Betsi yw na fydd byth yn bosibl i staff a fforddio tri ysbyty llym?" Ymatebodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro (Dynodedig) i elfen gyntaf y cwestiwn hwn gyda'r datganiad canlynol:

"Mae nifer o brosesau gwella clir wedi'u rhoi ar waith yn BIPBC, sydd wedi bod yn arbennig o amlwg yn ein hymateb i Covid-19. Fodd bynnag, bydd y prosesau hyn yn ategu cynnig gofal clinigol o ansawdd ymhell y tu hwnt i'n hymateb i Covid. Er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau clinigol yn cadw at y safonau uchaf, e.e. arweiniad cenedlaethol, a roddir gan Golegau Brenhinol, rydym wedi creu Grŵp Cyngori Clinigol er mwyn archwilio ein llwybrau clinigol yn gritigol ac sy'n eu paru ag arweiniad

cenedlaethol cyn cael eu defnyddio. Rydym hefyd yn gobeithio dechrau gwaith yn fuan ar gomisiynu Academi Gwella Ansawdd i Ogledd Cymru er mwyn cefnogi gofal o ansawdd uchel ymhellach. Mae enghraifft ddiweddar o drosi'r egwyddorion hyn yn narpariaeth well a diogelach i gleifion i'w gweld yn ein gwasanaethau gofal critigol, sydd wedi perfformio mewn ffordd eithriadol, nid yn unig trwy wella ei gapasiti posibl bron i deirgwaith, ond hefyd trwy gofnodi canlyniadau cleifion â Covid-19 sy'n gyfwerth neu sy'n well o'u cymharu â data'r DU sy'n rhywbeth i fod yn falch ohono. Mae adnoddau ychwanegol wedi'u rhoi ar waith, e.e. buddsoddi cyfalaf o ran man gofal critigol newydd yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac mae cyfleusterau wedi'u gwella yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd. Mae gennym gapasiti ychwanegol erbyn hyn gyda 50 o beiriannau anadlu gofal critigol ac i'w cludo, ac rydym wedi dyblu ein gallu i gynnal dialysis arenol gyda 26 o beiriannau. Mae hefyd yn werth sôn am ein safonau gofal i ferched sy'n rhoi genedigaeth. Gwnaethom gyflwyno sgrinio a phrofi cyffredinol ar gyfer Covid-19 cyn y rhan fwyaf o'r sefydliadau gofal iechyd yn y DU, gan ymgysylltu'n uniongyrchol â Choleg Brenhinol yr Obstetryddion, ac nid ydym wedi cael unrhyw heintiau Covid-19 yn cynnwys ein cleifion Obstetreg a Gynaecoleg. Mae gennym staff meddygol i gyflenwi 24 awr y dydd, saith niwrnod o'r wythnos ar gyfer pob un o'n wardiau geni. Rydym yn parhau i ddenu Meddygon Ymgynghorol newydd i'r Bwrdd Iechyd a gwnaethom gynyddu niferoedd ein Meddygon Ymgynghorol o 20 yn y 12 mis rhwng Awst 2019-Awst 2020, sy'n golygu bod uwch arbenigwyr yn awyddus i ddod atom i weithio yng Ngogledd Cymru." Ychwanegodd y Cadeirydd ei fod yn ymwybodol bod yr Aelodau Annibynnol a oedd wedi cadeirio paneli cyfweld ar gyfer meddygon ymgynghorol wedi'u plesio gan ansawdd yr ymgeiswyr, yn ddiweddar. Yna, ymatebodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol Dros Dro i elfen olaf y cwestiwn hwn gyda'r datganiad canlynol: "Rydym yn gwerthfawrogi bod gennym lawer o waith i'w wneud gyda'n hased allweddol, ein gweithlu, i wella'r diwylliant ac mae gennym fentrau cyfoes i ganfod sut mae ein staff yn teimlo am eu swyddi, eu hamodau gwaith a'r sefydliad fel y gallwn gytuno gyda'n gilydd sut i wella'r diwylliant ac i ymgysylltu â staff mewn ffordd ystyrlon. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n rhydd rhag aflonyddu a bwlio ac adlewyrchwyd hyn yn y sylwadau a wnaed yn gynharach"

A20.5.6 Roedd cwestiwn pellach yn ymwneud â darpariaeth gofal cychwynnol fel a ganlyn: "Pryd mae llanastr anhrefnus y ffaith nad oes DIM UN meddyg ym meddygfeydd Longford a Cambria yn mynd i gael ei ddatrys? Dylai Longford Road ailagor gyda'n meddygon eu hunain, a'u gweld wyneb-yn-wyneb?" Ymatebodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol gyda'r datganiad canlynol: "Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dod yn gyfrifol am weithrediad y ddau bractis yn ddiweddar, pan nad oedd y meddygon teulu blaenorol yn gallu parhau i'w cynnal. Mae hon yn broblem ar draws y DU gyfan gan fod llai o feddygon teulu ar gael i wneud yr holl waith maent wedi'i wneud yn draddodiadol. Yn debyg i lawer o ardaloedd yn y DU, rydym yn ymateb i hyn trwy hyfforddi gweithwyr proffesiynol eraill i gefnogi meddygon teulu fel bod meddygon teulu'n gallu canolbwyntio ar yr agweddau hynny ar ofal yn unig lle bo angen meddyg teulu. Felly yw hi yn Longford a Cambria, lle'r ydym yn cefnogi hyfforddi nifer o weithwyr proffesiynol ychwanegol. Y gwir amdani yw, hoffwn gydnabod ymdrechion yr unigolion a'r staff cymorth yn y ddau bractis sy'n ymroddedig ac sy'n mynd y filltir ychwanegol er mwyn bod mor hyblyg â phosibl gan gadw pobl yn ddiogel"

ar yr un pryd. Yn ogystal, ni allwn anwybyddu'r heriau digynsail yr ydym wedi'u gweld oherwydd y coronafeirws dros y chwe mis diwethaf neu fwy. Nid yw Ymarfer Meddygol wedi dod i ben ar unrhyw adeg; i'r gwrthwyneb, mae practisau cyffredinol ar draws y Bwrdd Iechyd wedi ymateb i'r her ddigynsail gydag ymateb digynsail yr wyf yn falch ohono. Mae newid i ffyrdd o weithio wedi bod yn angenrheidiol, er mwyn cadw clinigwyr, eu staff, ac yn bwysicaf oll, gleifion eraill yn ddiogel. Mae hyn wedi cynnwys cynnig ymgynghoriadau mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys dros y ffôn, fideo a lle bo angen, maent wedi parhau i gynnig ymgynghoriadau wyneb yn wyneb. Ym mhob ardal, daeth un practis yn ganolfan ddynodedig i weld cleifion lle y tybiwyd eu bod â'r coronafeirws, a meddygfa Longford Road oedd honno yng Nghaergybi. Bydd hyn, yn anochel, wedi cyfyngu ar y cleifion sy'n gallu mynd i safle Longford Road, ond cafodd gofal ei symud dros dro i safleoedd eraill tra'r oedd y trefniant hwn ar waith."

A20.5.7 Cafodd cwestiwn arall ei gyflwyno fel a ganlyn: "Cyfarwyddwr Cenedlaethol Cymru yn Diabetes UK ydw i ac rwyf yn pryderu fwyfwy ynghylch gwasanaethau diabetes yn BIPBC. 1. Er bod NICE wedi amlinellu hyn yn glir, nid oes cymorth seicoleg i oedolion sydd â diabetes yng ngorllewin PBC. 2. Pryd fyddwch chi'n penodi arweinydd clinigol diabetes i gydlynu gwaith gweithredu Cynllun Cyflenwi ar gyfer Diabetes Llywodraeth Cymru? 3. Pryd fydd eich Arweinydd Gweithredol Diabetes yn mynychu'r Grŵp Cynllunio a Chyflenwi ar gyfer Diabetes yn unol â mandad Llywodraeth Cymru, mae yn ei swydd ers dros ddwy flynedd a hyd yma, nid yw wedi ymateb i'r un o'm hymholiadau. Byddwn yn ddolchgar pe bai modd mynd i'r afael â'r rhain yn eich Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar 20 Medi". Ymatebodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol gyda'r datganiad canlynol: Byddai'n annheg dod i'r casgliad nad yw'r Bwrdd Iechyd yn bwrw ymlaen i ddatblygu gwasanaethau diabetes, gan gynnwys mynediad i gymorth seicoleg. Byddaf yn ymateb yn uniongyrchol i awdur y cwestiwn gydag ymateb manylach i'r meysydd cwestiwn a godwyd ond byddaf yn rhoi trosolwg byr yma. Yn gyntaf, o ran cymorth seicoleg i gleifion sydd â diabetes, mae'r Bwrdd yn cytuno bod mynediad teg i'r gwasanaeth pwysig hwn yn bwysig, nid yn unig yng ngorllewin PBC ond ar draws PBC cyfan. Dyna pam yr ydym eisoes yn cefnogi cynnydd o ran yr achos busnes i'r gwasanaeth hwn i symud trwy ein prosesau llywodraethu. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cefnogi'r awgrym y dylem gofleidio diabetes fel y maes cyntaf lle byddwn yn mabwysiadu llwybr mwy cynhwysol o ran yr ymagwedd ailgynllunio. Mae potensial mawr i wneud hyn a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i ni adfywio aelodaeth â'n grŵp Cynllunio a Chyflenwi ar gyfer Diabetes, a rhoi mwy o bwyslais arno, ac fel rhan o hyn, rydym wedi penodi un o'n Cyfarwyddwyr Meddygol ynghyd â diogelu amser i flaenoriaethu cefnogi hyn. Yn anffodus, mae coronafeirws wedi golygu bod hyn wedi cymryd ychydig yn hirach nag a fwriadwyd, ond rwyf am fod yn glir bod hyn yn flaenoriaeth bennaf i ni."

A20.6 Sylwadau i Gloi

A20.6.1 Gwnaeth y Cadeirydd gloi trwy ddweud bod 2019-20 wedi bod yn flwyddyn heriol iawn, a oedd hyd yn oed yn anos ers dechrau'r pandemig. Cydnabu fod y sefydliad wedi ymateb yn dda iawn i'r pandemig a'i fod wedi'i arwain yn dda gan y Tîm Gweithredol. Roedd hefyd yn awyddus i ganmol y gweithlu cyfan am eu hymrwymiad, eu hyblygrwydd a'u proffesiynoldeb. Nododd fod ymweliadau yn ddiweddar ag ystod o ysbytai cymunedol wedi gwella ei hyder o ran eu gallu i ymateb i unrhyw ail don. O ran

symud ymlaen, cadarnhaodd fod trafodaethau cadarnhaol gyda Llywodraeth Cymru o ran eu cefnogaeth tuag at gynlluniau a mentrau'r Bwrdd. Roedd yn edrych ymlaen at allu rhannu manylion gyda chydweithwyr a phartneriaid maes o law.

A20.6.2 Roedd y Cadeirydd am ddiolch i aelodau, cyfranogwyr a'r sawl fu'n gwylio'r cyfan am eu cyflwyniadau, eu sylwadau a'u cwestiynau ac yna, caeodd y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ffurfiol. Cadarnhaodd y câi egwyl fer ei chynnal a byddai'r Bwrdd yn parhau mewn sesiwn gyhoeddus ar gyfer ei brif agenda o 11.30am.

Templed adroddiadau'r Bwrdd/Pwyllgorau



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Cyfarfod a dyddiad: Meeting and date:	Cyfarfod y Bwrdd 12.11.2020						
Cyhoeddus neu Breifat: Public or Private:	Cyhoeddus						
Teitl yr Adroddiad Report Title:	Safon 37: Cyfieithu papurau'r Bwrdd						
Cyfarwyddwr Cyfrifol: Responsible Director:	Miss Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus						
Awdur yr Adroddiad Report Author:	Mrs Einir Ellis, Uwch Gyfieithydd						
Craffu blaenorol: Prior Scrutiny:	Tîm Gweithredol						
Atodiadau Appendices:	0						
Argymhelliad / Recommendation:							
Gofynnir i'r Bwrdd ystyried yr opsiynau isod, a chymeradwyo ffordd ymlaen o ran cyfieithu papurau'r Bwrdd yn unol â Safon 37 (Safonau'r Gymraeg dan Fesur y Gymraeg Cymru 2011).							
Please tick as appropriate							
Ar gyfer penderfyniad /cymeradwyaeth For Decision/ Approval	☒	Ar gyfer Trafodaeth For Discussion	☒	Ar gyfer sicrwydd For Assurance	☐	Er gwybodaeth For Information	☐
Sefyllfa / Situation:							
Pwrpas y papur hwn yw darparu asesiad o gapasiti i gyfieithu papurau'r Bwrdd yn unol â darpariaeth Safon 37.							
Cefndir / Background:							
Ar 30 Tachwedd 2018, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ei Hysbysiad Cydymffurfio o ran Safonau'r Gymraeg i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain yn gosod gofyniad cyfreithiol ar y Bwrdd Iechyd i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ar ffurf Safonau'r Gymraeg. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, ac ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ar 30 Mai 2019, daeth 111 o Safonau i rym i'r Bwrdd Iechyd, ynghyd â 10 arall ar 30 Tachwedd 2019. Yn dilyn cyfarfod y Bwrdd Iechyd ym mis Ionawr 2020, gofynnwyd i Wasanaethau'r Gymraeg gynnal asesiad priodol i roi gwybodaeth i'r Bwrdd ar y capasiti gofynnol i ddarparu Safon 37, o ran cyfieithu papurau'r Bwrdd.							
Safon 37 <i>Os byddwch yn cynhyrchu dogfen (ond nid ffurflen) sydd ar gael i un unigolyn neu fwy, mae'n rhaid i chi ei chynhyrchu yn Gymraeg - (a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei</i>							

chynhyrchu yn Gymraeg, neu (b) os yw'r gynulleidfa arfaethedig, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cynhyrchu'r ddogfen yn Gymraeg.

Asesiad / Assessment & Analysis

Fel y gofynnwyd, mae Gwasanaethau'r Gymraeg wedi cynnal asesiad o gapasiti i gydymffurfio â Safon 37.

Amlinellir isod yr opsiynau i'w hystyried:

Opsiwn 1 – Cyfieithu holl bapurau'r Bwrdd ar y templed newydd (heb gynnwys dogfennau sydd mewn fformat pdf megis yr adroddiadau APPMR, IQPR ac ati.)

Opsiwn 2 – Cyfieithu'r holl Eitemau Sefydlog (heb gynnwys dogfennau sydd mewn fformat pdf megis yr adroddiadau APPMR, IQPR ac ati.)

Opsiwn 3 – Cyfieithu pob un o bapurau'r Bwrdd yn cynnwys dogfennau mewn fformat pdf megis yr adroddiadau APPMR, IQPR ac ati.

Rhoddir manylion isod ar y ddwy elfen sydd angen eu hystyried – y costau a'r amserlenni.

Costau cyfieithu

Nid yw cyfieithu peiranyddol yn cael ei ystyried yn arfer da gan y gall arwain at gamgymeriadau a chyfieithiadau anghywir. Felly, amlinellir isod yr opsiynau ar gyfer anfon y gwaith at gwmni cyfieithu allanol neu gadw'r gwaith yn fewnol drwy'r Gwasanaeth Cyfieithu.

Opsiwn	Cwmni allanol	Cyfieithu mewnol
Opsiwn 1 – Cyfieithu holl bapurau'r Bwrdd ar y templed newydd (heb gynnwys dogfennau sydd mewn fformat pdf megis yr adroddiadau APPMR, IQPR ac ati.) Tua 46,000 o eiriau'r cyfarfod a 23,000 o eiriau fesul pob cyfarfod Bwrdd â'r CHC.	£4,000 am bob cyfarfod Bwrdd £27,460 y flwyddyn (yn seiliedig ar 6 cyfarfod Bwrdd a 2 gyfarfod â'r CHC)	Mae Gwasanaeth Cyfieithu BIPBC yn gweithio dros eu capasiti ar hyn o bryd, felly byddai angen recriwtio un cyfieithydd llawn amser i fodloni'r diffyg hwn ar gost o tua £33,390 y flwyddyn
Opsiwn 2 – Cyfieithu'r holl Eitemau Sefydlog (heb gynnwys dogfennau sydd mewn fformat pdf megis yr adroddiadau APPMR, IQPR ac ati.) Tua 26,000 o eiriau'r cyfarfod a 23,000 o eiriau fesul pob cyfarfod Bwrdd â'r CHC.	£2,210 am bob cyfarfod Bwrdd £17,260 y flwyddyn (yn seiliedig ar 6 cyfarfod Bwrdd a 2 gyfarfod â'r CHC)	Mae Gwasanaeth Cyfieithu BIPBC yn gweithio dros eu capasiti ar hyn o bryd, felly byddai angen recriwtio un cyfieithydd llawn amser i fodloni'r diffyg hwn ar gost o tua £33,390 y flwyddyn
Opsiwn 3 – Cyfieithu <u>pob un</u> o bapurau'r Bwrdd yn cynnwys	£8,000 am bob cyfarfod Bwrdd	Nid yw hwn yn opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan y byddai'n golygu

dogfennau mewn fformat pdf megis yr adroddiadau APPMR, IQPR ac ati. Tua. 92,000 o eiriau.	£52,000 y flwyddyn (yn seiliedig ar 6 cyfarfod Bwrdd a 2 gyfarfod â'r CHC)	gorfod recriwtio o leiaf ddau gyfieithydd ychwanegol (cost o tua £66,780 y flwyddyn). Ond hyd yn oed wedyn, byddai'n arwain at broblemau o ran amserlen fel yr amlinellir isod
--	--	--

Ffigurau'n seiliedig ar gyfarfod y Bwrdd Iechyd mis Ionawr 2020, ac maent yn ganllaw bras yn unig.

Amserlenni

O safbwynt amserlenni a logisteg, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfarfod bob yn ail fis felly mae hyn yn golygu bod amser yn dynn rhwng cyfarfodydd o ran paratoi papurau a'u cyhoeddi 7 diwrnod calendar cyn dyddiad y cyfarfod (fel sy'n ofynnol). Mae'r Bwrdd eisoes wedi cymeradwyo cyfres o brosesau ar gyfer gosod agenda, sicrwydd ansawdd a llofnodi papurau, gydag amserlenni clir ar gyfer dosbarthu ac adrodd sy'n cael eu monitro'n agos i sicrhau cydymffurfiaeth. Nid oes digon o hyblygrwydd yn y broses hon i gynnwys amser cyfieithu'r papurau, atodiadau a chyflwyniadau heb effeithio ar allu'r sefydliad i a) ddarparu adroddiadau amserol i'r Bwrdd neu Bwyllgorau a b) i fodloni'r amserlen cyhoeddi a bennir gan yr Eitemau Sefydlog.

Felly, byddai'n rhaid cynnwys amser cyfieithu ymlaen llaw a byddai gofyn cyflwyno'r papurau dwyieithog, wedi eu cyfieithu'n barod, i Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd 7 diwrnod calendar cyn y cyfarfod. Byddai'r amser cyflwyno papurau fel a ganlyn felly:

Opsiwn 1	Cwmni allanol	Cyfieithu mewnol
Opsiwn 1 – Cyfieithu holl bapurau'r Bwrdd ar y templed newydd (heb gynnwys dogfennau sydd mewn fformat pdf megis yr adroddiadau APPMR, IQPR ac ati.) Tua 46,000 o eiriau.	Dim hwyrach na 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cyflwyno i Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd	Dim hwyrach na 10 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cyflwyno i Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd
Opsiwn 2 – Cyfieithu'r holl Eitemau Sefydlog (heb gynnwys dogfennau sydd mewn fformat pdf megis yr adroddiadau APPMR, IQPR ac ati.) Tua 26,000 o eiriau.	Dim hwyrach na 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cyflwyno i Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd	Dim hwyrach na 10 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cyflwyno i Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd
Opsiwn 3 – Cyfieithu <u>pob un</u> o bapurau'r Bwrdd yn cynnwys dogfennau mewn fformat pdf megis yr adroddiadau APPMR, IQPR ac ati. Tua. 92,000 o eiriau.	O leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cyflwyno i Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd	Nid yw hwn yn opsiwn sy'n cael ei ffafrio oherwydd hyd yn oed gyda dau gyfieithydd ychwanegol, byddai angen cyflwyno'r papurau o leiaf 15 diwrnod gwaith cyn dyddiad cau Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd

Asesiad Ychwanegol

Yn ogystal â'r opsiynau hyn, mae Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd wedi cynnal asesiad o Gylch Busnes cyffredinol y Bwrdd lechyd yn seiliedig ar y meini prawf uchod a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Ystyriodd yr asesiad feini prawf megis, a yw testun y ddogfen yn ymwneud â materion Cymraeg, neu a yw canran o'r gynulleidfa a ragwelir yn siaradwyr Cymraeg. Yn ôl yr asesiad hwn, dim ond ychydig o ddogfennau ychwanegol fyddai angen eu cyfieithu i'r hyn sy'n cael eu cyfieithu ar hyn o bryd e.e. y Strategaeth lechyd Meddwl, yr IMTP ac ati, sy'n dod gerbron y Bwrdd bob ychydig o flynyddoedd. Ni ddangosodd yr asesiad hwn fod angen cyfieithu papurau arferol y Bwrdd nac Eitemau Sefydlog.

Goblygiadau Ariannol

Os dynodir diffyg cydymffurfiaeth, bydd y Comisiynydd yn cynnal ymchwiliad, gan gyflwyno'r casgliadau terfynol mewn adroddiad ysgrifenedig. Os na chymerir camau digonol i fynd i'r afael â diffygion, gall y Comisiynydd osod cosb sifil o hyd at £5000 ar y sefydliad.

Dadansoddiad Risg

Y brif ystyriaeth yw'r amser. Byddai ar Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd angen y papurau dwyieithog, wedi eu cyfieithu'n barod, 7 diwrnod calendar cyn bob cyfarfod. Felly, oherwydd capasiti, byddai ar y cwmni cyfieithu allanol angen y papurau i'w cyfieithu ddim hwyrach na 14 diwrnod cyn bob cyfarfod a byddai ar Wasanaeth Cyfieithu BIPBC eu hangen dim hwyrach na 21 diwrnod cyn bob cyfarfod. Byddai hyn yn gofyn am newid diwylliannol anferth a gallai gael effaith niweidiol ar allu'r sefydliad i ddarparu gwybodaeth amserol a chyfredol i'r Bwrdd.

Hefyd, byddai angen cymeradwyaeth y Bwrdd i wrthod unrhyw bapurau sy'n cael eu cyflwyno ar ôl y terfyn amser uchod.

Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth

Cafodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chafodd ganiatâd brenhinol ar 9 Chwefror 2011.

Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, ac yn atgyfnerthu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

Mae'r Mesur hefyd wedi:

- Creu trefn ar gyfer gosod dyletswyddau ar sefydliadau ar ffurf Safonau'r Gymraeg (y Safonau)
- Sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) i graffu ar gydymffurfiaeth
- Rhoi grym i'r Comisiynydd ymchwilio unrhyw honiadau o amharu at ryddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg

Asesiad Effaith

Nid oedd angen asesiad effaith mewn cysylltiad â chreu'r adroddiad hwn. Yn wir, diben yr adroddiad ei hun yw sicrhau a chadarnhau bod sylw priodol yn cael ei roi i ddarparu gwasanaethau Cymraeg a hyrwyddo cydraddoldeb yn BIPBC.